Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol Cymru

National Independent Safeguarding Board Wales

# Cyfarfod y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol

## Cofnodion y cyfarfod

**Dyddiad:** 11 Mawrth 2026 **Amser:** 09.30am Cyfarfod Teams

**Yn bresennol:**

- Tony Young (Cadeirydd y Bwrdd Cenedlaethol)
- Lin Slater (Is-gadeirydd y Bwrdd Cenedlaethol)
- Artie Meakin (Aelod o'r Bwrdd)
- Dave Street (Aelod o'r Bwrdd)
- John Williams (Aelod o'r Bwrdd)
- Des Mannion (Aelod o'r Bwrdd)
- Taryn Stephens (Dirprwy Brif Swyddog Gofal Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru)
- Emma Logan (Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd Cenedlaethol)

**Eitemau ar yr agenda a chrynodeb manwl:**

**1. Croeso ac ymddiheuriadau:**

Dechreuodd y cyfarfod gyda gair o groeso gan y Cadeirydd, a chafodd ymddiheuriadau eu nodi.

**2. Gwrthdaro o ran buddiannau:**

Gofynnodd y Cadeirydd i'r aelodau ddatgan unrhyw wrthdaro o ran buddiannau. Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau.

**3. Cofnodion a chamau gweithredu'r cyfarfod blaenorol:**

Cafodd cofnodion y cyfarfod blaenorol eu hadolygu. Cawsant eu cymeradwyo'n dilyn mân newidiadau, a nodwyd eu bod yn addas i'w cyhoeddi.

## 4 Taryn Stephens, Llywodraeth Cymru – Trafodaeth â Dirprwy Brif Swyddog Gofal Cymdeithasol Llywodraeth Cymru

Rhannodd Taryn Stephens ddiweddariadau am fentrau diogelu Llywodraeth Cymru. Cyhoeddodd y byddai'r Strategaeth Genedlaethol ar Atal ac Ymateb i Gam-drin Plant yn Rhywiol yn cael ei chyhoeddi'n fuan, a'i bod yn cynnwys cynllun gweithredu tair blynedd a phedwar prif amcan: dull system gyfan o weithio, data gwell, ymwybyddiaeth gyhoeddus, a hyfforddiant cyson. Bydd y gwaith o'i gweithredu yn cael ei reoli gan fwrdd strategol gyda fforymau cynghori ar gyfer dioddefwyr. Mae'r ymchwiliad i gangiau grŵmio'n parhau. Mae'r cylch gorchwyl wrthi'n cael ei ddatblygu o hyd, a disgwylir mewnbwn amlasiantaeth. Mae adroddiad terfynol yr adolygiad o drefniadau llywodraethiant ar gyfer diogelu'n disgwyl am gymeradwyaeth weinidogol, a allai fod yn hwyrach na'r disgwyl oherwydd etholiadau. Mae cyfweliadau ar gyfer rôl Cadeirydd y Bwrdd Cenedlaethol wedi'u trefnu, a disgwylir y canlyniadau ym mis Ebrill 2026. Mae Llywodraeth Cymru yn buddsoddi mewn data gwell am ddiogelu ac yn cydweithio â'r Bwrdd Cenedlaethol i osgoi unrhyw ddyblygu. Mae angen i gyllideb y Bwrdd gael cymeradwyaeth weinidogol, ac mae yna bwysau ar staff mewn rolau arwain ar hyn o bryd nes y bydd gwaith recriwtio allanol wedi'i gwblhau.

## 5 Adroddiad y Bwrdd Cenedlaethol a Phrifysgol Metropolitan Manceinion ynghylch Adolygiadau Ymarfer Plant

Nododd y Bwrdd yr oedi'n ymwneud â'r adroddiad thematig ynghylch Adolygiadau Ymarfer Plant, a gomisiynwyd gan y Bwrdd Cenedlaethol. Bellach, disgwylir fersiwn terfynol yr adroddiad erbyn diwedd mis Mawrth. Bydd neges ddrafft yn cael ei hanfon at Gadeiryddion a Rheolwyr Busnes y Byrddau Diogelu Rhanbarthol i amlinellu'r rheswm dros yr oedi ac amlinellu'r camau nesaf.

Pwysleisiodd aelodau'r Bwrdd yr angen i bob aelod adolygu'r adroddiad terfynol a'i gymeradwyo'n ffurfiol cyn iddo gael ei gyhoeddi, hyd yn oed os oes angen cwblhau'r gwaith yn sydyn er mwyn bodloni gofynion talu diwedd y flwyddyn. Pan fydd yr adroddiad wedi'i gymeradwyo, bydd yn cael ei gyhoeddi a'i gyfieithu.

At hynny, mae'r Bwrdd yn bwriadu cynnal digwyddiad bord gron gyda rhanddeiliaid ar ôl i'r adroddiad gael ei gyhoeddi, er mwyn trafod y canfyddiadau a'r argymhellion, gan ddilyn arferion adolygu blaenorol.

## 6 Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Cenedlaethol

Adolygodd y Bwrdd Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Cenedlaethol gan dynnu sylw at ei werth o ran amlinellu gweithgareddau, effaith ac argymhellion. Pwysleisiodd yr aelodau y dylai'r adroddiad gyd-fynd â'r cynllun gwaith, olrhain themâu allweddol, a chael ei ategu gan dystiolaeth gref a gwaith dadansoddi, yn enwedig ynghylch data

am ddiogelu a chanlyniadau, er gwaetha'r heriau sy'n parhau o ran data. Rhaid i'r adroddiad ddangos cynnydd yn glir ynghyd â'r meysydd y mae angen rhoi sylw pellach iddynt. Cytunwyd bod cwblhau'r adroddiad, cael yr aelodau i'w adolygu, a chael cymeradwyaeth brydlon yn hollbwysig o ran sicrhau tryloywder ac atebolrwydd, ac y byddai'r adroddiad yn cael ei gyfieithu a'i gyhoeddi ar ôl iddo gael ei gymeradwyo.

## 7 Cynllun gwaith blynyddol y Bwrdd Cenedlaethol

Adolygodd y Bwrdd gynllun gwaith drafft y Bwrdd Cenedlaethol gan nodi adborth blaenorol gan yr aelodau a chonsensws cyffredinol ynghylch ei gyfeiriad, yn amodol ar fân waith mireinio.

Penderfynwyd cynnal dau fersiwn o'r cynllun gwaith: dogfen gyhoeddus sy'n amlinellu blaenoriaethau ac ymrwymiadau, ac adnodd mewnol manwl ar gyfer tracio camau gweithredu, terfynau amser, cyfrifoldebau a chynnydd.

Cyflwynodd yr Ysgrifenyddiaeth adnodd tracio mewnol sy'n ymdrin â chyfarfodydd, gwaith recriwtio, trefniadau sefydlu, y gyllideb, adroddiadau, gwaith a gomisiynwyd a digwyddiadau. Cafodd yr adnodd ei groesawu gan yr aelodau at ddibenion goruchwylio a blaenoriaethu.

Bydd newidiadau terfynol yn cael eu gwneud sy'n mynd i'r afael ag eglurder partneriaethau ac adolygiadau yn y dyfodol. Yna, bydd y cynllun gwaith yn cael ei gyhoeddi a'i ddiweddaru'n rheolaidd fel dogfen fyw.

## 8 Dogfen sefydlu aelodau'r Bwrdd Cenedlaethol

Adolygodd y Bwrdd fersiwn drafft o ddogfen sefydlu ar gyfer aelodau newydd. Cafodd y ddogfen ei chroesawu gan y Bwrdd a ddywedodd ei fod yn adnodd defnyddiol yr oedd yn hen bryd iddo fod ar gael. Pwysleisiodd y Bwrdd yr angen am eglurder, ymarferoldeb, a chyn lleied ag sy'n bosibl o ddiweddariadau, a chytunodd i gael gwared ar luniau o'r aelodau a chyfyngu ar gyfeiriadau at unigolion.

Argymhellodd yr aelodau y dylid lleihau'r cynnwys am Lywodraeth Cymru er mwyn adlewyrchu rôl gynghori annibynnol y Bwrdd, ac y dylid cynnwys trosolwg ehangach o lywodraethiant yn lle'r diagram am strwythur. Dylai manylion sy'n gallu newid gael eu cadw mewn atodiadau er mwyn hwyluso diweddariadau. Roedd yna gyfeiriadau priodol at y broses o gynnal adolygiadau blynyddol; dylai'r broses gael ei chyflwyno fel proses gefnogi yn hytrach na phroses werthuso.

Bydd yr Ysgrifenyddiaeth yn diwygio'r drafft yn briodol. Mae'n bosibl y bydd angen mwy o waith mireinio'n dilyn yr adolygiad o drefniadau llywodraethiant ar gyfer diogelu.

## 9 Matrics Cydberthnasau Partneriaethau'r Bwrdd Cenedlaethol

Adolygodd y Bwrdd Fatrics Cydberthnasau Partneriaethau'r Bwrdd Cenedlaethol er mwyn egluro cydberthnasau strategol, a chytunodd fod angen ei ddiweddaru er mwyn adlewyrchu newidiadau i'r aelodaeth, rolau, a gwaith ymgysylltu. Cafodd yr aelodau arweiniol ar gyfer cydberthnasau allanol eu cadarnhau, a chafodd newidiadau eu gwneud os oedd cyfrifoldebau wedi symud neu os oedd gwaith ymgysylltu wedi dod i ben. Bydd rhai cydberthnasau anweithredol yn cael eu dileu neu'u monitro er mwyn sicrhau bod y matrics yn parhau'n realistig a'i fod yn parhau i ganolbwyntio ar ychwanegu gwerth at flaenoriaethau statudol y Bwrdd.

Pwysleisiodd yr aelodau yr angen am hyblygrwydd ac am adolygiadau rheolaidd er mwyn alinio â chapasiti a blaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg. Ystyrir bod penodi Cadeirydd newydd cyn bo hir yn gyfle i ailwampio cydberthnasau strategol allweddol. Bydd yr Ysgrifenyddiaeth yn diweddaru ac yn dosbarthu'r matrics diwygiedig. Cytunodd y Bwrdd y dylai'r matrics fod yn ddogfen fyw, a fydd yn sicrhau tryloywder ac ymgysylltu effeithiol y tu hwnt i ddyraniadau penodol.

## 10 Strategaeth Gyfathrebu'r Bwrdd Cenedlaethol a diweddariad ynghylch y wefan

Cafodd y Bwrdd ddiweddariad ynghylch Strategaeth Gyfathrebu'r Bwrdd Cenedlaethol a'i wefan. Bydd y gwaith o reoli'r wefan yn cael ei drosglwyddo'n fuan i ddarparwr newydd; roedd yr oedi diweddar wedi digwydd oherwydd prosesau ariannol mewnol, ond mae'r anawsterau wrthi'n cael eu datrys a disgwylir y bydd anfonebau nas talwyd a thrwyddedau wedi'u setlo cyn diwedd y flwyddyn. Nid oedd modd mynd i'r wefan am gyfnod byr, a thynnodd hynny sylw at yr angen am oruchwyliaeth gryfach a threfniadau monitro rheolaidd dan y system newydd. Mae'r Ysgrifenyddiaeth yn parhau i wynebu problemau'n ymwneud â mynediad a thrwyddedu, a'i nod yw cyflwyno ateb mwy dibynadwy y mae'n haws ei ddefnyddio.

Mae Llywodraeth Cymru wedi sicrhau cyllid ychwanegol ar gyfer costau'r wefan eleni, a fydd yn gwneud gwelliannau'n bosibl heb effeithio ar gyllidebau yn y dyfodol. Mae gwaith yn parhau ar y Strategaeth Gyfathrebu, sy'n cynnwys ymgysylltu â rhanddeiliaid. Mae rhai problemau amseru wedi digwydd, ond rhagwelir cynnydd pellach a bwriedir rhoi diweddariad llawn mewn cyfarfod o'r Bwrdd yn y dyfodol.

## 11 Y gyllideb

Cafodd y Bwrdd ddiweddariad ynghylch cyllideb y Bwrdd Cenedlaethol, sy'n dal i ddisgwyl am gymeradwyaeth weinidogol. Soniodd Taryn Stephens fod Llywodraeth Cymru yn ystyried dull amgen o ddefnyddio adnoddau, ond nad oes unrhyw ymrwymiadau wedi'u gwneud. Pwysleisiodd yr aelodau bwysigrwydd y gyllideb graidd, gan groesawu hyblygrwydd posibl. Cafodd cyllid ychwanegol ei sicrhau eleni

ar gyfer gwelliannau i'r wefan, a fyddai'n gwarchod cyllidebau yn y dyfodol. Pwysleisiodd yr Ysgrifenyddiaeth yr angen i sicrhau bod fersiynau terfynol o adroddiadau a gomisiynwyd yn cael eu llunio o fewn y flwyddyn ariannol er mwyn bodloni gofynion talu a gofynion diwedd y flwyddyn. Cytunodd y Bwrdd i fonitro statws y gyllideb nes bod cadarnhad yn dod i law.

## 12 Recriwtio

Cafodd y Bwrdd ddiweddariad ynghylch recriwtio: mae Carys wedi cael ei phenodi a bydd yn ymuno'n ffurfiol ar 1 Mehefin 2026, gyda'r posibilrwydd o fynychu cyfarfod cynharach fel sylwedydd. Mae cyfweliadau ar gyfer rôl Cadeirydd y Bwrdd Cenedlaethol ar fin cael eu cynnal; bydd cyngor yn cael ei anfon at y Gweinidog ac, yn amodol ar gael cymeradwyaeth, disgwylir y canlyniadau erbyn dechrau mis Ebrill 2026.

## 13 Digwyddiad Bord Gron Diogelu Oedolion ar 9 Mawrth 2026

Cadarnhaodd y Bwrdd fod y Digwyddiad Bord Gron Diogelu Oedolion ar 9 Mawrth 2026 wedi'i gynnal, a oedd yn cyd-fynd â'i ffocws ar ddiogelu oedolion a dysgu ar draws y system gyfan. Nododd yr aelodau fod y digwyddiad wedi annog gwaith ymgysylltu amlasiantaeth, ac y byddai'r canlyniadau yn llywio penderfyniadau ac ymarfer y Bwrdd yn y dyfodol. Cytunwyd y dylid adrodd ynghylch unrhyw rai o brif ganfyddiadau'r ford gron mewn cyfarfod yn y dyfodol er mwyn hybu camau parhaus i oruchwylio a blaenoriaethu.

## 14 Cod Ymarfer ar Sicrhau Ansawdd a Rheoli Perfformiad, Uwchgyfeirio Pryderon a Chau Gwasanaethau Rheoleiddiedig 2026

Adolygodd y Bwrdd y gwaith o gyhoeddi'r Cod Ymarfer diwygiedig, a'r cyd-destun o ran ei ddatblygu. Bu'r aelodau yn ystyried gwaith yn y gorffennol a phryderon parhaus am drefniadau uwchgyfeirio mewn gwasanaethau rheoleiddiedig, yn enwedig o ran ymarfer gwael parhaus. Er bod y Cod diwygiedig yn egluro cyfrifoldebau'r comisiynydd a'r darparwr, erys cwestiynau am effeithiolrwydd y Cod o ran mynd i'r afael â phroblemau diogelu sy'n codi dro ar ôl tro ac o ran galluogi ymyriadau pendant. Mae'r heriau yn cynnwys atebolrwydd, capasiti i arolygu, a'r gallu i gau gwasanaethau anniogel yn brydlon. Mae rhai Byrddau Rhanbarthol wedi rhoi atebion lleol ar waith. Cytunodd y Bwrdd i fonitro effaith y Cod diwygiedig ar ganlyniadau i oedolion mewn lleoliadau rheoleiddiedig, ac mae'n bosibl y bydd yn ailystyried y mater cymhleth hwn yn ystod gwaith yn y dyfodol.

## 15 Diweddariadau gan y Byrddau Rhanbarthol

Cafodd y Bwrdd ddiweddariadau cryno ynghylch ymgysylltu â Byrddau Diogelu Rhanbarthol**.** Nodwyd bod cynrychiolaeth o'r Bwrdd wedi bod yn bresennol yn ddiweddar mewn cyfarfod o Fwrdd Rhanbarthol, ac nad oedd yna unrhyw faterion o bwys yr oedd angen eu huwchgyfeirio i'r Bwrdd Cenedlaethol ar hyn o bryd.

Bu'r aelodau yn myfyrio ynghylch pwysigrwydd parhau'n amlwg a pharhau i ymgysylltu â Byrddau Rhanbarthol, a gwnaethant gydnabod bod materion sy'n codi yn lleol yn cael eu rheoli'n gyffredinol drwy drefniadau rhanbarthol sydd wedi ennill eu plwyf ar gyfer llywodraethiant. Ni chafodd unrhyw bryderon nac unrhyw gamau gweithredu ychwanegol eu codi i'w hystyried gan y Bwrdd.

## 16 Diweddariadau gan randdeiliaid – y Gwasanaeth Lles Addysg, Arolygiaeth Gofal Cymru, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, Estyn, Swyddfa Archwilio Cymru, Comisiynydd Plant Cymru, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, y Fframwaith Amddiffyn Pobl Agored i Niwed, y Fforwm Gwrthgaethwasiaeth, a Grŵp Cynllunio'r 4 Gwlad

Nododd y Bwrdd ddiweddariadau ynghylch ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol a oedd yn cynnwys arolygiaethau, cyrff proffesiynol a phartneriaid cenedlaethol. Nid adroddwyd ar y pryd ynghylch unrhyw faterion o bwys yr oedd angen eu huwchgyfeirio i'r Bwrdd.

Cydnabuwyd bod ymgysylltu â rhanddeiliaid yn parhau i gael ei gyflawni drwy drefniadau a chynrychiolaeth bresennol ar draws fforymau perthnasol. Cytunodd y Bwrdd y byddai unrhyw faterion o bwys sy'n codi o ymgysylltu â rhanddeiliaid yn cael eu cyflwyno gerbron y Bwrdd er mwyn iddynt gael eu hystyried fel y bo'n briodol mewn cyfarfod yn y dyfodol.

**Daeth y cyfarfod i ben am 1.12pm**